**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:31 Gorffennaf 2018** | |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | **15 Awst 2018** |

**PWNC**

Eitem 6:ADOLYGU LEFEL ADNODDAU GWASNAETH GWARCHOD Y CYHOEDD

**PENDERFYNIAD**

1. Derbyn yr adroddiad

2. Cymeradwyo cyfeirio £70,000 o incwm presennol yr adran i gynyddu adnodd staffio er cyfarch gofynion gorfodaeth cyfraith bwyd yn unol a'r adroddiad. Gan ganiatáu'r Adran Amgylchedd i:

— Wireddu un o'r cynlluniau arbedion arfaethedig (yn ymwneud ag incwm yn sgil trefniadau cau ffyrdd) yn gynnar 9h.y. gweithredu yn ystod 2018/19 yn hytrach nac erbyn 2019/20.

— Cynhaeafu £70,000 o incwm ychwanegol o'r cynllun arbediad hwnnw yn adrannol, ar gyfer gweithredu trosglwyddiad cyllideb barhaol er mwyn ariannu 2 swydd yn y gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Bwyd.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Yn sgil archwiliad gan yr Asiantaeth safonau Bwyd yn Chwefror 2016, ac ymchwiliad dilynol yn Chwefror 2018, maent wedi codi pryderon ynglŷn a'r lefel o adnoddau sydd gan y Cyngor er mwyn cyflawni ei wasanaeth gorfodi cyfraith bwyd o safbwynt hylendid a safonau bwyd.

Mae'n hanfodol fod y Cyngor yn edrych ar y lefel tebygol o adnodd ychwanegol sydd ei angen er mwyn cwrdd a'r diffyg, er mwyn lleihau risgiau posib i drigolion Gwynedd ac i'r Cyngor, drwy roi mesurau cadarnhaol yn eu lle er mwyn cyflawni gofynion cyfreithiol o safbwynt hylendid bwyd.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd a'r Swyddogion statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:31 Gorffennaf 2018** | |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | **15 Awst 2018** |

**PWNC**

Eitem 7:ADRODDIAD BLYNYDDOL CYFLOGAETH

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwyo yr adroddiad blynyddol.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Bwriad yr arddodiad oedd cyflwyno diweddariad blynyddol o fanylion y gweithlu a'u cyflogaeth, yn ogystal ag amlinellu amcanion ar gyfer datblygu'r gweithlu a gosod cyfeiriad ar gyfer y dyfodol. Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod angen i'r Cabinet adlewyrchu a chytuno ar y strategaeth gorfforaethol yn y maes allweddol hwn i'r dyfodol.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd hefyd a'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:31 Gorffennaf 2018** | |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | **15 Awst 2018** |

## PWNC

Eitem 8:RHYDDHAD DEWISIOL RHAG TRETH CYNGOR I BOBL IFANC YN GADAEL GOFAL

## PENDERFYNIAD

Yn unol â hawliau'r Cyngor dan Adran 13A(1)(c) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, caniatáu eithriad llawn rhag talu Treth Cyngor i bobl ifanc yn gadael gofal tan y maent yn 25 mlwydd oed, ar ôl ystyried unrhyw ddisgowntiau, eithriadau a/neu ostyngiad Treth Cyngor y maent eisoes yn deilwng iddynt.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

1. Mae Adran 13A(1)(c) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 yn rhoi grym dewisol cyffredinol i awdurdodau bilio megis Cyngor Gwynedd i leihau atebolrwydd am Dreth Cyngor mewn perthynas ag unrhyw berson, neu grŵp o bobl, yn ychwanegol i unrhyw ddisgowntau ac eithriadau cenedlaethol perthnasol.
2. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae nifer o awdurdodau bilio yng Nghymru wedi penderfynu caniatáu eithriad llawn rhag talu'r Dreth Gyngor i bobl ifanc sy'n gadael gofal (rhai hyd nes y bydd y person yn 21 mlwydd oed, eraill nes bydd y person yn 25). Mae hyn wedi dilyn nifer o adroddiadau ac ymgyrchoedd (er enghraifft, gan Gymdeithas y Plant), sydd wedi nodi amrywiaeth o anfanteision unigryw y mae'r rhai sy'n gadael gofal yn cael profiad ohonynt, a'u natur fregus mewn perthynas â dyledion Treth Cyngor.
3. Rhoddwyd sylw i'r mater hwn gan y Panel Rhiantu Corfforaethol yn ei gyfarfod yn Ebrill 2018. Nodwyd yn y cyfarfod y rhoddwyd sylw i'r mater gan Gomisiynydd Plant Cymru yn dilyn ei hadroddiad 'Breuddwydion Cudd', gyda'r bwriad o osgoi sefyllfaoedd ble mae pobl ifanc sy'n ceisio sefydlu eu hunain yn annibynnol ar ôl gadael gofal yn mynd i ddyledion Treth Cyngor. Cytunodd y Panel i gefnogi'r cais bod y Cabinet yn caniatáu rhyddhad o'r fath.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU

**PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd a'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad. Yn ogystal bu i'r mater gael ei drafod gan y Panel Rhiantu Corfforaethol ym Mis Ebrill, a phenderfynodd wneud cais i'r Cabinet i ganiatáu'r rhyddhad dewisol i'r rhai'n gadael gofal.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:31 Gorffennaf 2018** | |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | **15 Awst 2018** |

## PWNC

Eitem 10:UWCH REOLAETH Y CYNGOR

## PENDERFYNIAD

Derbyn bwriad y Prif Weithredwr a'r sgil effeithiau a nodwyd yn yr adroddiad..

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Yn unol a threfniadau'r Cyngor mae hawl gan y Prif Weithredwr, yn ddarostyngedig i ofynion i ymgynghori a swyddogion ac achos busnes i benderfynu ar geisiadau ymddeoliad cynnar. Oherwydd fod y mater yn ymwneud ag Uwch Swyddog ymgynghorwyd a'r Cabinet hefyd ynglŷn a'r cais cyn dod i benderfyniad.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad